Treuliwyd diwrnod braf ar Orffennaf 8fed pan aeth y trip am dro i'r hen Sir Benfro. Talwyd ymweliad a'r Eglwys Gadeiriol yn Nhyddewi ac yna i Scolton Manor cyn troi am adre dros y Preselau.

Ddiwedd y tymor ffarweliwyd a'r Prifathro, Mr. R.T. Evans ynghyd a nifer o blant a aeth i ysgolion Penweddig a Phenglais. Dymuniadau da i bob yr un ohonoch.

Bu nifer o'r plant yn llwyddiannus yn y gwahanol gystadlaethau yn Sioe Arddwriaethol Penrhyn-coch a llongyfarchiadau arbennig i Sioned Thomas am gipio'r cwpan.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf a Miss M. Pryce Jones ar farwolaeth ei thad, y Parchedig Edwin Pryce Jones, yn ystod mis Awst.

Ar ddechrau tymor newydd braf yw cael croesawu'r Prifathro newydd, Mr. Alun John. Edrychwn ymlaen at gydweithio'n hapus o dan ei arweinyddiaeth a dymunwn yn dda iddo yn y Penrhyn. Deallir y bydd ef a'r teulu yn symud i'r ardal heb fod yn hir iawn.

Croesawn nifer o blant bach newydd i'r ysgol hefyd, Emma Elkins, Thomas Meachen, Ceri John, Gareth Philips, Matthew Thomas, Stephen Holmes a Fraser Watson.